Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adolygiad Buddsoddi 2023
# Adroddiad a Phenderfyniadau

Medi 2023

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys


Cipolwg ar yr Adolygiad Buddsoddi ........................................ 3

Cyflwyniad ........................................ 6

Yr hyn a wnaethom ........................................ 7

Yr hyn a ddysgwyd ganddom ........................................ 11

Y Chwe Egwyddor ........................................ 14

Beth sy'n digwydd nesaf? ........................................ 40

Crynodeb o'r Argymhellion ........................................ 43


## Hygyrchedd

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Darllen ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n gweithredu polisi cyfle cyfartal.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

# Cipolwg ar yr Adolygiad Buddsoddi

- Mae'r arian aml-flwyddyn a roddir i sefydliadau yn yr Adolygiad Buddsoddi yn rhan fawr o'r ffordd yr ydym yn cefnogi'r celfyddydau yng Nghymru, ac yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Strategol. Fel gyda'n holl waith i gefnogi'r celfyddydau, yr arian cymorth grant a gawn gan Lywodraeth Cymru, a'r arian a ddynodir inni gan y Loteri Genedlaethol, sy'n gwneud hyn yn bosibl.

- Er gwaethaf yr amgylchiadau economaidd heriol, bydd cynnydd yn y buddsoddiad ariannol a wneir mewn sefydliadau sy'n derbyn arian aml-flwyddyn gan broses yr Adolygiad Buddsoddi. Roedd cyfanswm y gofyn ariannol gan y sefydliadau gwerth bron £54 miliwn. Bydd y swm a fuddsoddir ganddom i sefydliadau yn cynyddu o £28.7 miliwn i £29.6 miliwn.

- Mae nifer y sefydliadau y cynigir arian aml-flwyddyn iddynt gan Gyngor Celfyddydau Cymru'n codi o 67 i 81.

- Mae cynnydd sylweddol yn nifer y sefydliadau newydd y cynigir arian iddynt – ceir 23 o sefydliadau newydd yn 2023, o'i gymharu â phedwar yn yr Adolygiad Buddsoddi blaenorol yn 2015. Mae'r rhain yn cynnwys Citrus Arts (Trehopcyn), Common Wealth (Caerdydd), Oriel Elysium (Abertawe), FOCUS Wales (Wrecsam), People Speak Up (Llanelli), Cwmni Theatr Taking Flight (Caerdydd), Theatr Byd Bychan (Aberteifi), Neuadd Ogwen (Bethesda), ac Urban Circle (Casnewydd).

- Cawsom fwy o geisiadau nag erioed o'r blaen, gyda 139 o sefydliadau gymwys am fuddsoddiad, o'i gymharu â 94 yn 2015.

- Dilynodd y broses bob cam fel y'i nodwyd yn y canllawiau cyhoeddedig, a rhoddwyd sicrwydd sylweddol i'r broses honno gan ein harchwilwyr.

- Nid yw'r arian sydd ar gael gennym yn ddigon i gefnogi pob sefydliad ar y lefel y gofynnon nhw. Gwnaethpwyd penderfyniadau anodd ar sail ymateb y sefydliadau i'n chwe egwyddor sef: Creadigrwydd, Ehangu Ymgysylltiad, Y Gymraeg, Cyfiawnder Hinsawdd, Meithrin Talent a Thrawsnewid. Roedd y broses benderfynu hefyd yn cynnwys ein pum ffactor cydbwyso sef ystod eang o gelfyddydau a chyfleoedd creadigol; gwasanaethu cymunedau ledled Cymru; lleisiau sydd wedi'u tanariannu ac sydd ddim yn cael eu clywed; gwerth cyhoeddus; a maint a ffurf sefydliadau sy'n ymgeisio.

- Mae rhagor o sefydliadau a arweinir gan y Gymraeg yn cael eu hariannu y tro hwn, gan gynnwys Theatr Soar (Merthyr Tudful) ac Oriel Plas Glyn y Weddw (Llanbedrog). Ceir cynnydd yn y gweithgarwch Cymraeg drwyddo draw yn y sefydliadau a ariennir.

- Bydd yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn creu ystod ehangach o amrywiaeth yn y celfyddydau yng Nghymru, gyda nawdd ar gyfer mwy o sefydliadau a arweinir gan bobl sy'n amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig, gan gynnwys y sefydliadau Fio a Jukebox Collective, yn ogystal â chynnydd yn y gynrychiolaeth o bobl F/fyddar ac anabl ar fyrddau'r sefydliadau a gefnogir. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud llawer mwy er mwyn sicrhau bod ein sector yn gynrychiadol ac yn amrywiol.

- Drwy gydol y broses buom yn nodi meysydd lle mae angen inni wneud ymyriadau strategol pellach er mwyn mynd i'r afael â bylchau neu anawsterau. Mae ein hymrwymiadau'n cynnwys cynorthwyo RAMPS Cymru i wella cynrychiolaeth pobl anabl ar draws y sector theatr yng Nghymru, ac adolygiad o gerddoriaeth draddodiadol. Rydym wedi dynodi £1.4 miliwn ychwanegol ar gyfer y gweithredoedd hyn, a fydd yn cael eu diffinio ymhellach yn dilyn trafodaethau.

- Bydd 13 sefydliad a ariennir fel aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru ar hyn o bryd yn derbyn cynnydd yn eu lefelau ariannu presennol, sef: Ballet Cymru, Cwmni'r Frân Wen, Dawns i Bawb, Celfyddydau Anabledd Cymru, g39, Hijinx, Jukebox Collective, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Theatr Bara Caws, Theatr Torch, Tŷ Cerdd, Plant y Cymoedd a Neuadd Les Ystradgynlais.

- Mae arian wedi cynyddu ar draws y rhan fwyaf o'r celfyddydau a meysydd creadigol, gan gynnwys celfyddydau syrcas ac awyr agored, celfyddydau gweledol a chymhwysol, celfyddydau digidol, dawns, lleoliadau, a chelfyddydau cymysg. Yr eithriad yw opera, a welodd ostyngiad o £607,308 yn ei arian, a theatr, a welodd ostyngiad o £533,250, er y ceir ymrwymiad i adolygu Theatr yn Saesneg.

- Ni fydd rhai o'r sefydliadau a fu'n rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru yn cael cynnig arian aml-flwyddyn o 2024/25 ymlaen, ond gallant barhau i ymgeisio am arian o'n cronfeydd eraill. Y sefydliadau hyn yw: Eleni, Hafren, Celf ar y Blaen, Impelo, Opera Canolbarth Cymru, National Theatre Wales, Rubicon Dance, Canolfan Celfyddydau Taliesin a Trac Cymru.

- Un o'r prif ystyriaethau yn ein proses benderfynu oedd gwasanaethu cymunedau ledled Cymru. Rydym wedi gostwng yr arian i rai sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, a chynyddu'r arian mewn nifer o awdurdodau lleol gan gynnwys Wrecsam, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Sir Benfro. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd rhai ardaloedd yn derbyn llai o arian nag eraill gan gynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Conwy, Sir Ddinbych, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen. Rydym wedi ymrwymo i feithrin perthnasoedd â'r awdurdodau lleol hyn a rhanddeiliaid lleol eraill er mwyn edrych ar sut orau i gefnogi'r cynnig celfyddydol y mae'r cymunedau hyn yn ei haeddu.

- Mae'r Adolygiad Buddsoddi'n rhan o'n gwaith ehangach a ddarperir ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'r Adolygiad Buddsoddi'n sefyll ochr yn ochr â'n rhaglenni eraill ni (gan gynnwys Dysgu Creadigol, Celfyddydau ac Iechyd, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Noson Allan) a'n cyfleoedd ariannu eraill (gan gynnwys Camau Creadigol, y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol a Chreu).

- Bydd unrhyw gynigion o gyllid aml-flwyddyn yn dibynnu ar ganlyniad y broses apêl ac ar ein setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, mae'r cynigion yn amodol yn unig a dylid eu trin felly. Caiff y cynigion eu cadarnhau ar ddiwedd y broses apêl a phan fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ein cyllideb ni.

# Cyflwyniad

Mae'r Adolygiad Buddsoddi hwn yn cynrychioli newid cadarnhaol iawn i'r celfyddydau yng Nghymru, a fydd yn arwain at gyfleoedd newydd i bobl o bob cefndir ymgysylltu â'r celfyddydau a'u mwynhau.

Mae darllen y ceisiadau wedi bod yn brofiad gwylaidd ac egnïol inni, a chawsom ein syfrdanu gan wreiddioldeb a dyfeisgarwch y gweithgarwch a'r rhaglenni creadigol a gynigir ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Gwyddom hefyd y byddwn ni fel sefydliad yn dysgu o weithio gyda'r set newydd o sefydliadau a ariennir ar sail aml-flwyddyn, ac ar y cyd y gallwn gefnogi ac annog ein gilydd i weithio tuag at yr egwyddorion a'r uchelgeisiau a rannwn. Bydd ein Cynllun Strategol yn adlewyrchu ac yn ategu creadigrwydd ac egni'r sector a gefnogwn.

Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o egni ac ymrwymiad wedi mynd i'r gwaith o gyflwyno'r ceisiadau a dderbyniwyd gennym. O ystyried hynny, rydym wedi cymryd o ddifrif ein swydd o sicrhau proses deg ac atebol ac rydym yn briodol iawn wedi buddsoddi amser a gofal sylweddol yn y broses honno.

# Yr hyn a wnaethom

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n dosbarthu arian blynyddol i sefydliadau er mwyn cefnogi eu swyddogaethau craidd, gan gynnwys gweithrediadau a rhaglennu celfyddydol. Mae'n wahanol i'r arian ar gyfer prosiectau unigol gan ei fod yn cynnig sefydlogrwydd i sefydliadau er mwyn iddynt gyflawni eu gweithgareddau celfyddydau yn barhaus.

Gallwn ariannu sefydliadau fel hyn trwy Gymorth Grant Llywodraeth Cymru yn bennaf, gan ddefnyddio oddeutu 88% ohono i'r diben hwn; a thrwy rywfaint o arian dirprwyedig gan y Loteri Genedlaethol. Yn y modd hwn, buddsoddwyd oddeutu £28.7 miliwn gennym mewn sefydliadau yn ystod 2023/24.

Mae cyllidebau sy'n lleihau a chostau cynyddol yn golygu ein bod yn wynebu sefyllfa ariannol anodd. Fodd bynnag, nid oeddem eisiau lleihau ein buddsoddiad yn y sector. Felly, bydd yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn gweld cynnydd gwerth bron £1 miliwn yn yr arian a fuddsoddir mewn sefydliadau. Rydym wedi cyflawni hyn drwy ddynodi mwy o arian y Loteri Genedlaethol a chanfod arbedion yn ein cyllideb ein hunain lle bo'n bosibl. Rydym hefyd wedi ymrwymo i roi £1.4 miliwn ychwanegol i ymyriadau strategol sy'n ymateb i fylchau yn y sector a ganfuwyd gennym drwy'r broses asesu.



Carlos Bunga, *Terra Firma*, Oriel Gelf Glynn Vivian (Llun: Polly Thomas)

Yn y gorffennol, rydym wedi cynnal Adolygiad Buddsoddi bob pum mlynedd, a arweiniodd at greu grŵp sefydlog o sefydliadau a ariennir yn flynyddol a elwir yn Bortffolio Celfyddydol Cymru. Mae 67 o sefydliadau'n aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru ar hyn o bryd. Cynhaliwyd yr Adolygiad Buddsoddi diwethaf yn 2015, a bu oedi i'r broses ers hynny oherwydd y pandemig.

Yn dilyn ymgynghoriad yn 2022, penderfynwyd newid y drefn o hyn allan. Ein dymuniad yw i'r Adolygiad Buddsoddi hwn fod yr olaf o'r 'digwyddiadau' ariannu mawr a gynhelir bob pum mlynedd. Yn hytrach, hoffem symud at weithio mewn ffordd fwy ymatebol sy'n ein galluogi i gymryd golwg mwy hirdymor ar ein nawdd. Bydd system newydd o gytundebau arian aml-flwyddyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd. Caiff sefydliad llwyddiannus dymor ariannu cychwynnol o dair blynedd, a byddwn yn dal i fyny â'r gwaith yn yr ail flwyddyn, gyda'r opsiwn i gadarnhau tymor arall. Golyga hyn ei bod yn bosibl cael perthynas ariannu barhaol, cyhyd â bod y targedau yn y cytundeb ariannu blynyddol yn cael eu cyrraedd (ac yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael).

Mae'r Adolygiad Buddsoddi hwn a'i benderfyniadau o ran ariannu yn cael eu hysgogi gan chwe egwyddor, a luniwyd i adlewyrchu agweddau ar y sector y mae angen gweithredu cadarnhaol arnynt. Cafodd y chwe egwyddor hyn eu datblygu yn ystod cyfnod o fyfyrio ac ymgynghori, ac maent yn cyd-fynd yn agos â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er bod gan bob egwyddor ei diffiniad ei hun, ceir cysylltiad clir rhwng pob un ohonynt. Y chwe egwyddor yw: Creadigrwydd; Ehangu Ymgysylltiad; Y Gymraeg; Cyfiawnder Hinsawdd; Meithrin Talent; a Thrawsnewid.

Gofynnwyd i sefydliadau ddweud wrthym sut y bydd eu gwaith yn cyd-fynd â'n chwe egwyddor, a sut maen nhw wedi ymrwymo i'w datblygiad eu hunain ar draws pob egwyddor. Yn eu ceisiadau, roeddem yn chwilio am wybodaeth ar sut bydd gwaith y sefydliadau yn adlewyrchu'r chwe egwyddor wrth adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes mewn perthynas â'r buddsoddiad a'r cyfleoedd a roddwyd iddynt yn y gorffennol.

Roeddem yn ymwybodol y byddai'r galw yn fwy na'r hyn sydd ar gael, a byddai angen inni hefyd edrych ar y darlun ledled Cymru gyfan. Yn ogystal ag asesu sefydliadau yn ôl eu rhinweddau eu hunain ar sail y chwe egwyddor, roeddem hefyd yn ystyried yr hyn mae ei angen ar Gymru yn ei chyfanrwydd, a'r anawsterau a'r bylchau mewn nawdd celfyddydol y mae angen inni fynd i'r afael â nhw.




Taking Flight, Symposiwm Mynediad a Chynhwysiant

I wneud hyn, defnyddiwyd bum ffactor cydbwyso yng nghamau olaf ein proses wrth inni ystyried y sefydliadau y gallem eu hariannu. Y ffactorau yw: gwasanaethu cymunedau ledled Cymru; ystod eang o gelfyddydau a chyfleoedd creadigol; lleisiau sydd wedi'u tanariannu ac sydd ddim yn cael eu clywed; gwerth cyhoeddus; a maint a ffurf sefydliadau sy'n ymgeisio.

Mae'n bwysig cofio y cafodd y chwe egwyddor eu defnyddio'n bennaf fel y sail ar gyfer asesu a oedd modd ariannu sefydliad ai peidio. Pwysleisiwyd na fyddai'r cais yn cael ei ystyried i dderbyn arian os nad oedd yn dangos ansawdd na'r potensial angenrheidiol ar draws y chwe egwyddor, hyd yn oed os oedd yn cyd-fynd yn gryf â phum ffactor cydbwyso.

# Yr hyn a ddysgwyd ganddom

Derbyniwyd 139 o geisiadau cymwys, gyda llawer ohonynt yn cynrychioli amrywiaeth fawr o sefydliadau, celfyddydau a meysydd creadigol. Drwy'r broses hon, mae bywiogrwydd sector y celfyddydau yng Nghymru wedi gwneud argraff fawr arnom.

Cafodd llawer o'r sefydliadau a fydd yn cael cynnig arian aml-flwyddyn am y tro cyntaf eu meithrin a'u datblygu trwy ein cynlluniau targededig a ariennir gan y Loteri Genedlaethol, gan gynnwys Camau Creadigol a Chelfyddydau ac Iechyd. Mae'n braf iawn gweld y ffordd mae'r cynlluniau hyn wedi meithrin ac annog sefydliadau celfyddydol newydd a chyffrous. Mae'r holl sefydliadau y byddwn yn eu hariannu yn rhannu ein gwerthoedd fel sefydliad, ac ar y cyd gallwn greu newid cadarnhaol a hirhoedlog i gymunedau Cymru.

Dylid nodi hefyd bod llawer o'r sefydliadau a ariennir ar hyn o bryd wedi gwneud argraff arnom wrth iddynt ddangos gallu sylweddol i drawsnewid. Ceir llawer o enghreifftiau rhagorol o'r ffordd mae ein sefydliadau celfyddydol yn dal i addasu a newid er mwyn parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd o bob cefndir, o gamu i fyny i heriau niferus y pandemig byd-eang drwy barhau i gynnig gobaith a llawenydd i gynulleidfaoedd, i ymgysylltu â chymunedau, a bod yn onest wrth gydnabod y rhwystrau hanesyddol a strwythurol i gynhwysiant a wynebir gan lawer o artistiaid a chyfranogwyr.

Fodd bynnag, nid oedd yn hawdd cynnal yr Adolygiad Buddsoddi hwn ac ychwanegwyd yn sylweddol at yr her gan gyfyngiadau'r nawdd sydd ar gael a natur gystadleuol y broses ei hun. Rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Roedd y gofyn ariannol yn uchel iawn, yn £54 miliwn bron. Rydym wrth ein boddau y bydd 13 o'r sefydliadau yn derbyn cynnig am y swm llawn y gofynnwyd amdano, ond yr eithriad yw'r rhain.

Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n derbyn arian gennym ar hyn o bryd wedi gofyn, yn ddigon dealladwy, am fwy o arian fel ymateb i gostau cynyddol a dyhead i gynyddu eu gweithgareddau. O'r lleoliadau i'r sefydliadau cynhyrchu, i gyrff datblygu celfyddydau ac orielau – mae pob un yn wynebu heriau ariannol.

Fodd bynnag, er i nifer fawr gyflwyno achosion cryf dros dderbyn mwy o arian, ni fydd y rhan fwyaf o'r sefydliadau'n derbyn y swm llawn y gofynnwyd amdano. Mae'r swm y gallwn ei gynnig i lawer yn seiliedig ar lefel yr arian Portffolio Celfyddydol Cymru a gânt ar hyn o bryd. Bydd hyn yn siom i rai. Ystyriwyd mai cynnig nawdd sy'n parhau ar yr un lefel â'r un gyfredol oedd y ffordd fwyaf rhesymol a fyddai'n ein galluogi ni i sicrhau sector sydd mor amrywiol â phosibl, gyda rhywfaint o sicrwydd ariannol. Byddwn yn trafod gyda'r sefydliadau hyn sut allai'r swm o arian a gynigir iddynt effeithio ar eu cynlluniau o ran cyflawni, os caiff y cynigion eu derbyn. Er eglurder, ni ddylid rhagdybio y bydd y cynnig yn cynyddu mewn blynyddoedd i ddod.

Mae yna lawer o sefydliadau newydd sy'n ein cyffroi trwy ddangos potensial i fynd â'r celfyddydau yng Nghymru i gyfeiriadau newydd, a fydd hefyd yn derbyn cynnig is na'r hyn y gofynnwyd amdano. Serch hynny, i lawer bydd eu harian yn cynrychioli lefel uwch o fuddsoddiad blynyddol na'r hyn a gawsant o'r blaen ar sail un prosiect ar y tro.

Mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau newydd fydd yn cael eu hariannu wedi'u lleoli tu allan i Gaerdydd – gan gynnwys yn Wrecsam, Ceredigion, Merthyr, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n derbyn lefel uchel o arian wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, ond mae hyn yn cynnwys llawer o sefydliadau sydd â chylch gwaith i wasanaethu Cymru gyfan. Er bod mentrau eraill Cyngor Celfyddydau Cymru, megis Noson Allan, Celfyddydau ac Iechyd, a Dysgu Creadigol, yn darparu'n dda iawn mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, rydym hefyd yn cydnabod bod angen inni gryfhau ein cyrhaeddiad a'r cymunedau a wasanaethir trwy'r buddsoddiad hwn hefyd.

Felly byddwn yn estyn allan i'n partneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, er mwyn gwella ein cyrhaeddiad. Dyma un o'r nifer o ymyriadau strategol a ganfuwyd drwy'r broses Adolygiad Buddsoddi hon a fydd yn ein helpu ni i ymateb i fylchau – yn ddaearyddol neu o ran y celfyddydau – sydd heb eu llenwi eto. Nod yr ymrwymiadau hyn yw sicrhau'n llawn y bydd yr holl weddau ar y celfyddydau'n parhau i fod yn berthnasol i fywydau pobl ymhob rhan o Gymru.

# Y Chwe Egwyddor

Cafodd y ceisiadau i'r Adolygiad Buddsoddi – a'n hasesiad ni o'r ceisiadau – eu fframio gan y chwe egwyddor. Y rhain yw'r meysydd ffocws ar gyfer cefnogi a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru, a chreu'r fframwaith ar gyfer ein Cynllun Strategol a gaiff ei gyhoeddi yn 2024.



# 1. Creadigrwydd

Cafwyd ymateb cryf i'r egwyddor hon gan y ceisiadau y byddwn yn eu cefnogi. Roedd yn bleser inni ddarganfod hyd a lled y gweithgareddau a gynlluniwyd, ac i weld y syniadau egnïol ac ysbrydoledig a gyflwynwyd inni gan y sector.

Yn ogystal ag ystod o gelfyddydau a meysydd creadigol, ceir hefyd ychydig o gynigion diddorol ar gyfer ffyrdd newydd a gwahanol o greu a chyflwyno'r celfyddydau. Er enghraifft, bydd Ballet Cymru yn mynd â'i waith i leoliadau awyr agored a gwyliau, gan gynnwys Gŵyl Rhwng y Coed ym Merthyr Mawr. Gwelsom hefyd bod gweithwyr llawrydd creadigol yn ganolog i waith nifer o sefydliadau, gyda Sinfonia Cymru er enghraifft yn cynnig 1,445 o sesiynau â thâl yn 2023/24 i gerddorion llawrydd dan 30 oed.

O ystyried rhai o'r celfyddydau unigol, mae yna fuddsoddiadau newydd cyffrous ym maes celfyddydau gweledol, gan gynnwys Tŷ Pawb yn Wrecsam, Oriel Plas Glyn y Weddw yn Llanbedrog ac Oriel Elysium yn Abertawe (a fydd yn datblygu gweithdy'r oriel a'i gofod dysgu sef Gofodtri, er mwyn caniatáu ar gyfer ymagwedd fwy arbrofol a digymell i'r rhaglen artistig). Golyga hyn fod y celfyddydau gweledol, fel sector, wedi'u dosbarthu'n eang ledled Cymru, er ein bod yn cydnabod bod bylchau, yn enwedig o ran cynrychioli a meithrin talentau artistig ar lefel strategol. Yn gyffredinol, rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn celfyddydau gweledol i £463,763.



*The Astronauts*, Hijinx

Mae rhai o'r cynigion cyffrous a gafwyd yn y sector theatr yn cynnwys mwy o gefnogaeth i'r cwmni theatr gynhwysol Hijinx er mwyn datblygu ei waith ar lefel genedlaethol. Mae'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu datblygiad mawr i artistiaid ag anabledd dysgu ac artistiaid niwroamrywiol yng Nghymru. Mae arian ar gael i gwmnïau theatr arbenigol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fio, sy'n cefnogi pobl y mwyafrif byd-eang o bob oed; Theatr Taking Flight, sy'n gweithio tuag at gynrychiolaeth gyfartal i bobl F/fyddar ac anabl yn y sector theatr; a Common Wealth, sy'n gweithio gyda chymunedau dosbarth gweithiol yn nwyrain Caerdydd, a gaiff eu hesgeuluso'n aml gan sefydliadau celfyddydol. Mae'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yn y brifddinas ond maent yn gweithio'n ystyrlon a dilys gyda chymunedau sydd heb gael gwasanaeth digonol gan y celfyddydau.

Ceir potensial mawr mewn theatr Cymraeg a chynyrchiadau dwyieithog hefyd, ac edrychwn ymlaen at weld sut y bydd y sector yn parhau i ddefnyddio iaith a chreadigrwydd mewn modd cynhwysol a chydweithredol. Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn cynnig cyfres o ddatblygiadau cyffrous yn archwilio ffurfiau newydd ar theatr, gyda phartneriaid megis y Welsh Ballroom Community, a ffyrdd newydd o brofi gwaith, o gynyrchiadau digidol i deithiau mewn lleoliadau llai.

Un o'n prif benderfyniadau yw peidio â chynnig arian aml-flwyddyn i National Theatre Wales. Nid yw hyn yn adlewyrchu unrhyw amheuon sydd gennym ynghylch potensial theatr Saesneg, na'r angen amdano, yng Nghymru. Yn wir, bydd yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn gweld cynnydd yn nifer y cwmnïau sy'n cynhyrchu theatr Saesneg. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymo i gynnal adolygiad o theatr Saesneg yng Nghymru ac o'r ymyriadau a'r gefnogaeth y gallai fod eu hangen yn y dyfodol.

Ym myd y theatr, mae'r berthynas rhwng sefydliadau sy'n cynhyrchu a'r rhai sy'n cyflwyno yn hynod bwysig, a bydd yna ddibyniaeth ar arian Loteri sy'n ychwanegol i'r nawdd Adolygiad Buddsoddi ar gyfer llawer o'r gwaith a gyflwynir gan leoliadau. Byddwn yn dal i weithio'n galed i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gweld cynyrchiadau artistig o safon ledled Cymru, gan gynnwys mewn lleoliadau maint canolig.

Mae lleoliadau'n rhan bwysig o ecosystem y celfyddydau yng Nghymru ac rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad ynddynt £227,303. Mae nifer o leoliadau'n ymgeisio am arian aml-flwyddyn am y tro cyntaf, gyda llawer yn chwilio am gymorth tu hwnt i gostau rhaglennu. Yn eu cymunedau, mae llawer o'r lleoliadau hyn yn cynnig llefydd diogel a chroesawgar, gan wasanaethu cynulleidfaoedd o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol a chefndiroedd incwm isel. Mae enghreifftiau'n cynnwys Neuadd Ogwen ym Methesda, Theatr Soar ym Merthyr Tudful, a'r rhwydweithiau o leoliadau a wasanaethir gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Theatrau Sir Gâr.



Sarah Thornton, Dawns i Bawb (Llun: Phillip Hatcher-Moore)

Yn y sector cerddoriaeth, er y gwelsom sawl cais ar gyfer cerddoriaeth glasurol ac opera, roedd yn bleser gweld y bydd llawer o'r sefydliadau newydd a ariannwn yn ymgysylltu â genres a diwylliannau cerddorol ehangach a mwy amrywiol. O ganlyniad, mae ein buddsoddiad yn y sector cerddoriaeth wedi cynyddu £246,175, sy'n cynnwys yr ŵyl gerddoriaeth ryngwladol FOCUS Wales yn Wrecsam, gwaith traws-*genre* Operasonic yng Nghasnewydd, a'r ehangu ar waith Tŷ Cerdd.

Mae ansawdd artistiaid yn y sector cerddoriaeth draddodiadol yn eithriadol o gryf, ond oherwydd y penderfyniad i beidio ag ariannu Trac ar sail aml-flwyddyn, mae angen ystyried ymhellach yr hyn sydd ei angen yn awr ac yn y dyfodol i gefnogi'r rhan hollbwysig hon o sector y celfyddydau yng Nghymru.

Bydd yr Adolygiad Buddsoddi hwn yn gweld datblygiad sylweddol yn ein cefnogaeth i'r sector dawns. Byddwn yn cynnig y swm llawn a ymgeisiwyd amdano i Ballet Cymru, a fydd yn caniatáu iddo gyflogi cwmni o ddawnswyr llawn-amser, dim ond yr ail sefydliad o'i fath yng Nghymru. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig mewn sector sy'n or-ddibynnol ar ddawnswyr llawrydd. Rydym hefyd yn cynnig cynnydd yn ein harian i gwmni Dawns i Bawb a'i waith dawns gymunedol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen mwy o gymorth ar y sector dawns, gan gynnwys dawns gymunedol, a byddwn yn ymchwilio i wneud hyn yn well yn y blynyddoedd i ddod. Yn gyffredinol, rydym yn cynyddu ein buddsoddiad mewn dawns £296,367.

Byddwn yn parhau i ariannu ein tri sefydliad Loteri dirprwyedig (y rhai sy'n dosbarthu arian Loteri ar ein rhan) sef Tŷ Cerdd, Llenyddiaeth Cymru a Ffilm Cymru. Mae'r tri yn gweithredu fel cyrff datblygu cenedlaethol strategol ar gyfer eu celfyddydau priodol, adlewyrchu'r chwe egwyddor ac yn arwain y ffordd i'r sector.

Byddwn hefyd yn cefnogi sefydliadau sy'n gweithio yn y sectorau celfyddydau digidol, syrcas a chelfyddydau awyr agored, celfyddydau cymunedol, a chelf lens, gyda Ffotogallery yn ceisio sefydlu rôl Ffotograffydd Cenedlaethol Cymru er mwyn ysbrydoli pobl i ymgysylltu â ffotograffiaeth a hyrwyddo llythrennedd gweledol ledled Cymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen mwy o ystyriaeth ar gefnogaeth i wyliau a chelfyddydau awyr agored yn y blynyddoedd i ddod. I lawer, mae eu profiad cyntaf o'r math hwn o gelf gyhoeddus yn digwydd yn annisgwyl yn yr awyr agored, er enghraifft yn y parc lleol. Lle mae llawer o wyliau'n gallu bod yn rhy ddrud i rai, gall celfyddydau awyr agored gynnig gwerth gwych am arian i gynulleidfaoedd.

O ganlyniad i'r cynnydd yn ein buddsoddiad mewn celfyddydau iechyd a lles yn y blynyddoedd diwethaf, gwelsom gynnydd yn nifer y ceisiadau llwyddiannus a gafwyd gan sefydliadau sy'n canolbwyntio ar y meysydd hyn, gan gynnwys Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru, Re-Live yng Nghaerdydd a People Speak Up yn Llanelli. Mae'r sefydliadau sy'n adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes yn y maes hwn yn cynnwys Canolfan Grefft Rhuthun, SPAN Arts, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru ac Opera Genedlaethol Cymru. Roedd Theatr Bara Caws hefyd yn cynnig cynlluniau cyffrous yn y maes hwn.




Ffilm Cymru, Troed yn y Drws – Bangla Surf Girls

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddylanwad cadarnhaol ar sector y celfyddydau, a gwelsom fwy o sefydliadau nag erioed o'r blaen yn canolbwyntio ar bobl ifanc. Gwelir gweithgareddau celfyddydol a grëwyd gan, ac ar gyfer, pobl ifanc, yn ogystal â phrosiectau rhyng-genedlaethol diddorol yn llawer o'r sefydliadau, gan gynnwys Theatr Taking Flight, Fio, a'r rhaglen hyfforddi ffilm a theledu, It's My Shout.

Mae gan lawer o'r sefydliadau y byddwn yn eu hariannu agwedd ryngwladol ar eu rhaglennu celfyddydol craidd. Bydd Cwmni'r Frân Wen yn cynhyrchu prosiect traws cyfryngol rhyngwladol a grëwyd mewn cydweithrediad â Llechi Cymru, Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, gyda chysylltiadau â safleoedd eraill ar draws y byd.

Fodd bynnag, mae heriau diweddar Brexit a'r pandemig byd-eang – yn ogystal â natur frys yr argyfyngau hinsawdd – wedi golygu bod sector y celfyddydau o gwmpas y byd wedi bod yn ailfeddwl ac yn ail-ddychmygu sut mae'n gweithio'n rhyngwladol. Mae hyn yn wir hefyd am ein hasiantaeth ninnau, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru; bydd yn gweithio'n strategol ochr yn ochr â'r sefydliadau hyn a ariennir yn ogystal â chyrff eraill.


## Ein hymrwymiadau

1. Byddwn yn cynnal adolygiad o gefnogaeth strategol i sector y celfyddydau gweledol yn 2025/26.
2. Byddwn yn cynnal adolygiad o theatr Saesneg yng Nghymru.
3. Byddwn yn parhau â'n partneriaethau i gefnogi genres a chrewyr cerddoriaeth sydd wedi'u tanariannu, megis Power Up! ac Accelerator gyda Sefydliad PRS.
4. Byddwn yn adolygu ein cefnogaeth i gerddoriaeth draddodiadol ac yn ystyried anghenion buddsoddi i'r dyfodol.
5. Byddwn yn adolygu'r sector dawns yng Nghymru, a dawns gymunedol yn benodol. Byddwn yn edrych ar gefnogi seilwaith a'r ffordd mae'n cysylltu â gweithgareddau celfyddydau cymunedol eraill.
6. Byddwn yn adolygu sector y celfyddydau awyr agored yn 2025/26 ac yn ystyried cefnogaeth strategol.

# 2. Ehangu Ymgysylltiad

Roedd yn bleser gweld llawer o sefydliadau'n trafod yr egwyddor hon yn onest ac yn hunan-fyfyriol, gan ymrwymo i ddatrys diffygion yn hytrach na bodloni ar yr hyn a wneir ar hyn o bryd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi ystyried profiadau artistiaid B/byddar, anabl a niwroamrywiol, ac yn ceisio ymgysylltu â materion yn ymwneud â mynediad a hygyrchedd. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau o sefydliadau a oedd yn canolbwyntio ar un elfen ar Ehangu Ymgysylltiad yn unig. Yn anffodus, roedd elfen wannaf llawer o'r ceisiadau yn ymwneud â chymunedau amrywiol yn ddiwylliannol ac ethnig. Roedd y ceisiadau a ddefnyddiai ddull croestoriadol yn sefyll allan yn y broses asesu. Er enghraifft, mae Tanio, sefydliad celfyddydau cymunedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn defnyddio dull rhagweithiol i ehangu ymgysylltiad a chroestoriadedd drwy weithio gyda phobl y Mwyafrif Byd-eang, gan gynnwys y rhai sy'n siaradwyr Cymraeg – mae'r sefydliad yn sicrhau y caiff llwybrau i ddefnyddio'r Gymraeg eu cynnwys ym mhrosiect Mis Hanes Pobl Ddu.



Tanio, Prosiect Darlunio â Golau, Andy O'Rourke a Chlwb Bechgyn a Merched Bettws



Urban Circle (Llun: Shutterdown Photography © Carl Connikie)

Yn ogystal â cheisiadau gan sefydliadau ieuenctid dynodedig, megis Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, cafodd pobl ifanc eu hystyried yn helaeth drwyddi draw, gyda'r ymatebion cryfaf yn dod gan ymgeiswyr yn mynegi dyhead i roi pŵer strwythurol, gwirioneddol i leisiau iau. Mae ein hymchwil wedi dangos yn rheolaidd bod pobl ifanc yn absennol yn systemaidd o fyrddau sefydliadau celfyddydau, gyda dim ond dau y cant o aelodau byrddau Portffolio Celfyddydol Cymru dan 30 oed yn 2022/23. Mae sefydliadau fel Cwmni'r Frân Wen, ac Urban Circle yng Nghasnewydd, yn arwain y ffordd o ran rhoi platfform i leisiau pobl ifanc, a sicrhau bod y lleisiau hynny wrth galon prosesau penderfynu a llywodraethu. Er y bydd canran aelodau byrddau sy'n bobl ifanc yn codi'r flwyddyn nesaf i dri a hanner y cant, mae angen gwneud llawer mwy o waith i ddatblygu arweinyddiaeth a chyfleoedd strategol i bobl ifanc.

Yn ogystal â gweithio gyda phobl ifanc, roedd llawer o sefydliadau wedi nodi bod ganddynt brosiectau rhyng-genedlaethol ac yn gweithio gyda phobl hŷn. Bydd Citrus Arts, cwmni syrcas yn Nhrehopcyn, yn cefnogi 'cymuned o henuriaid' a gaiff ei grymuso i addysgu sgiliau ymarferol i'r cenedlaethau iau drwy rannu sgiliau. Cwmni arall a fydd yn cael ei ariannu am y tro cyntaf gan yr Adolygiad Buddsoddi hwn yw Re-Live, sy'n cyflawni gwaith dwyieithog drwy ei 'Gwmni o Henuriaid' i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol, a gaiff ei ddefnyddio hefyd ar gyfer hyfforddiant gofal iechyd.

Ceir mwy o amrywiaeth nag o'r blaen o ran ystod y ceisiadau a'r sefydliadau sy'n cael cynnig cymorth yn y broses hon, gyda llawer o sefydliadau newydd wedi cael eu datblygu dros y blynyddoedd drwy ymyriadau fel Camau Creadigol. Mae'r rhain yn cynnwys Fio, Jukebox Collective, Theatr Taking Flight ac Urban Circle. Fodd bynnag, gwyddom fod gwaith i'w wneud o hyd i gynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y sector. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r agenda hon drwy waith ein Hasiant er Newid ac mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys sefydlu rhwydweithiau rhanbarthol ar gyfer cymorth gan gymheiriaid.

Roedd yn gadarnhaol iawn gweld bod llawer o sefydliadau sy'n gweithio ar draws sectorau tebyg, er enghraifft cynhyrchu a pherfformio, yn ceisio cryfhau eu hymagwedd at yr egwyddor hon drwy weithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu arferion gorau i weithredu ar y cyd, fel y dangosir gan RAMPS Cymru, a rhannu ymagweddau at heriau megis recriwtio ac arweinyddiaeth. Hoffem ddatblygu a meithrin ymhellach y ffordd hon o weithio sy'n cynnwys cymorth gan gymheiriaid yn y sector, gan gynnwys yn ein sefydliad ein hunain.

## Ein hymrwymiadau

7. Byddwn yn datblygu rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i ddarparu cymorth gan gymheiriaid a mentora ynghylch Ehangu Ymgysylltiad er mwyn edrych ar y cyd ar y dull gorau a rhannu arferion da.
8. Byddwn yn cefnogi RAMPS Cymru – cydweithrediad rhwng Theatr Clwyd, Theatr Sherman, Celfyddydau Pontio, Theatr Torch a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru – sydd â'r nod o greu newid ystyrlon a chynaliadwy er mwyn gwella cynrychiolaeth pobl anabl ledled y sector theatr prif ffrwd yng Nghymru. Caiff hyn ei ariannu ar wahân i gynigion ariannu unigol.

# 3. Y Gymraeg

O ran materion ymarferol mewn perthynas â chydymffurfiaeth, staffio a hyfforddiant, mae'n gadarnhaol nodi bod y rhan fwyaf o sefydliadau a gefnogir wedi ymateb yn dda i'r egwyddor hon. Mae llawer ohonynt yn ymrwymo i gyflawni Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg, a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth dda a gwaith llinell sylfaen yn y dyfodol. Mae yna hefyd gynnydd yn y sefydliadau a arweinir gan y Gymraeg, gyda'r ganran gyffredinol yn codi o 25% i 30%.

Mae potensial da iawn i rai o'r sefydliadau y byddwn yn eu hariannu i ddod yn arweinwyr mewn datblygiadau yn eu meysydd, yn rhanbarthol a chenedlaethol o ran y Gymraeg – gan gynnwys hyfforddiant gweithlu, arbenigedd technegol a chymorth gan gymheiriaid. Hoffem annog a chefnogi ymatebion ar y cyd i heriau a bylchau yn y sector, er enghraifft, yr angen i hyfforddi arbenigwyr technegol theatr a ffilm Cymraeg eu hiaith. Bydd ymagwedd sector cyfan yn fwy effeithiol o lawer, a cheir cyfle i gynnwys y diwydiannau creadigol ehangach mewn trafodaethau hefyd, gan gynnwys Cymru Greadigol.

Eir ati i feithrin talent a datblygu sgiliau newydd yn y Gymraeg – yn dechnegol, gweithredol a chreadigol –mewn rhai meysydd yn fwy na'i gilydd. Mae cwmni Theatr na nÓg wedi cynllunio partneriaeth â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru er mwyn cynnig lleoliad gwaith rheoli llwyfan Cymraeg. Theatr, llenyddiaeth a cherddoriaeth yw'r celfyddydau cryfaf o ran y Gymraeg, gyda'r potensial am ymagwedd ehangach a mwy cydlynol trwy leoliadau a sefydliadau cymunedol.

O safbwynt artistig, diddorol yw nodi bod rhai o'r sefydliadau mwy newydd yn gyffredinol wedi cynnig ymagweddau mwy creadigol a diddorol at yr egwyddor hon. Mae Bipolar Fi a phrosiect Pererin Wyf cwmni Celfyddydau Span Arts yn dangos ei fod yn sefydliad sy'n cydgomisiynu gwaith Cymraeg ac sy'n chwilio am gyfleon sydd “nid yn unig am yr iaith ond am fywydau'r Cymry hefyd”.

Fodd bynnag, cafwyd diffyg cyffredinol o ran creadigrwydd yn yr ymatebion i'r egwyddor Gymraeg, gyda llawer o'r ceisiadau'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth oherwydd eu hanghenion datblygu sylfaenol. Mae angen mwy o waith yn y blynyddoedd nesaf i wreiddio'r Gymraeg ar draws rhai sefydliadau fel elfen bwysig o'u hallbwn creadigol ac artistig.

Mae'n amlwg hefyd nad yw rhai sefydliadau'n gwahaniaethu rhwng cynigion Cymraeg a rhai dwyieithog, ac i rai, nid yw diffiniad arferion dwyieithog yn glir. Bydd casglu data gyda diffiniadau y cytunwyd arnynt yn allweddol wrth inni asesu a mesur ein cefnogaeth i waith Cymraeg yn y dyfodol.

O ran cynaliadwyedd y cynlluniau o fewn yr egwyddor hon, ceir tuedd yn gyffredinol i ddibynnu ar bartneriaid eraill i gyflawni datblygiadau Cymraeg. Mae rhai sefydliadau hefyd yn dibynnu ar recriwtio pobl newydd i gyflawni'r datblygiadau hyn.

Ceir rhai cydweithrediadau diddorol wrth ystyried y croestoriadedd rhwng yr egwyddorion. Bydd Llenyddiaeth Cymru yn lansio Pencerdd, rhaglen datblygu Cymraeg mewn partneriaeth â chymdeithas farddol Barddas, a fydd yn cynnig hyfforddiant dwys i chwe bardd newydd o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i ddatblygu eu sgiliau cynganeddu. Mae cwmni Theatr Bara Caws yn edrych ar y potensial i fynd â'i waith creadigol Cymraeg i gyd-destunau gwahanol, gan gynnwys iechyd a hyrwyddo cyfleoedd llwybr gyrfa. Mae Theatr Felinfach yn rhan o rwydweithiau sy'n cefnogi ieithoedd lleiafrifol yn rhyngwladol.

## Ein hymrwymiadau

9. Gan adeiladu ar waith ein Hysgogydd y Gymraeg, byddwn yn creu cyfleoedd mentora a hyfforddi i weithio gyda'r sector i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau o ran y Gymraeg. Byddwn yn cydgysylltu'r gwaith hwn er mwyn helpu i ganfod cyfleoedd i weithio ar y cyd.

# 4. Meithrin Talent

Cafwyd llawer o ymatebion cadarnhaol a chreadigol i'r egwyddor hon, gan ddangos bod denu lleisiau newydd a datblygu'r celfyddydau amrywiol yn hollbwysig i'r rhan fwyaf o sefydliadau.

Mae pobl ifanc yn amlwg yn elfen sylweddol o'r ymatebion, gyda llawer o sefydliadau'n canolbwyntio'n bennaf ar feithrin talentau pobl ifanc, er enghraifft Arad Goch yn Aberystwyth a Theatr Iolo yng Nghaerdydd. Ar ben hynny, mae gan rai sefydliadau uchelgeisiau i ymgysylltu'n ehangach â phobl ifanc fel cynulleidfaoedd a chydweithredwyr, er enghraifft Artis Cymuned ym Mhontypridd, sy'n cynnig llwybrau a chyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc, a Llantarnam Grange yng Nghwmbrân a fydd yn sefydlu panel cynghori gan bobl ifanc.

Yn ogystal â datblygiadau celfyddydol, gwelsom themâu sy'n gyffredin i'r holl sefydliadau mewn perthynas â datblygu a gwella sgiliau technegol a gweithredol. Mae angen ymagwedd dargededig a chydlynol i fynd i'r afael â'r bylchau sylweddol o ran sgiliau theatr technegol Cymraeg. Mae hefyd diffyg arbenigedd marchnata Cymraeg a'r ddealltwriaeth o sut i ehangu'r cyrhaeddiad mewn cymunedau penodol.



*Mewn Datblygiad*, Frân Wen a Kristina Banholzer

Gwyddom y bu'n gyfnod hynod heriol i'r sector, a nodwyd bod recriwtio a chadw staff ar bob lefel yn broblem drwyddo draw. Dangosodd llawer o sefydliadau ymrwymiad cryf i ddatblygiad a llesiant eu staff eu hunain, gyda rhai'n gwneud buddsoddiad tebyg i gefnogi gweithwyr llawrydd a'r gweithlu creadigol ehangach.

Llwyddwyd i gryfhau ein buddsoddiad mewn dau faes gwaith allweddol o fewn yr egwyddor hon. Yn gyntaf, bydd y cynnydd yn ein cefnogaeth i gwmni Hijinx yn arwain at fwy o gyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu neu niwroamrywiaeth gael eu cyflogi a thyfu fel artistiaid proffesiynol, gan adeiladu ar lwyddiant ei Academïau ar draws Cymru, a'r asiantaeth gastio. Yn ail, bydd cefnogi Ballet Cymru yn arwain at gyflogi dawnswyr cwmni llawn amser newydd, sef datblygiad y mae mawr angen amdano ar y sector dawns yng Nghymru.

Ceir datblygiadau pwysig eraill o ran Meithrin Talentau. Bydd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn creu rhaglen datblygu greadigol newydd i ddatblygu sgiliau ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol celfyddydol sefydledig, gan ddefnyddio rhwydweithiau, cymorth gan gymheiriaid, mentora, adborth beirniadol a chyfleoedd pwrpasol ar gyfer archwilio a dysgu. Bydd Opera Cenedlaethol Cymru yn darparu rhaglen dysgu wythnosol i 16 o ysgolion, gan gynnwys y rhai sy'n cynorthwyo ag anghenion dysgu ychwanegol ac mewn ardaloedd â heriau economaidd sylweddol, gan feithrin pobl ifanc drwy ganu, mynegiant creadigol a datblygu sgiliau. Bydd FOCUS Wales yn Wrecsam yn creu nifer o gyfleoedd datblygu gyrfa i grewyr cerddoriaeth, gweithwyr llawrydd creadigol, a'r rhai sydd ar lefel mynediad i'r diwydiant cerddoriaeth. Bydd hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys Power Up! a Chelfyddydau Anabledd Cymru, i sicrhau bod y cyfleoedd ar gael i'r nifer fwyaf posibl o bobl fyddai'n cael budd ohonynt.

## Ein hymrwymiad

10. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid megis Cymru Greadigol i ganfod cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau yn y sector lle mae'r angen mwyaf.

# 5. Cyfiawnder Hinsawdd

Yn ein canllawiau Adolygu Buddsoddiad, nodwyd ein bod yn ymwybodol mai hwn fyddai'r maes mwyaf newydd i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr, ac roedd yn bleser gennym weld bod llawer o'r ymatebion i'r egwyddor hon yn dangos gonestrwydd am eu hynt.

Ceir rhywfaint o newyddion da gan fod llawer o sefydliadau wedi gwneud mwy o gynnydd yn hyn o beth na'r disgwyl. Er enghraifft, dangosodd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ei hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol yn ei gwaith o gynllunio (defnyddio Green Riders), hyrwyddo (defnyddio ei gwaith ar raglen Frozen Planet II David Attenborough fel sail), gweithredu (carbon sero erbyn 2030) a pherfformiad creadigol (20% o'r perfformwyr a ddefnyddiwyd o'r DU er mwyn lleihau teithiau awyren).

Mae llawer y gall Cyngor Celfyddydau Cymru ei ddysgu gan y sector, gan ei fod yn faes newydd i ninnau hefyd, a chydnabyddwn nad ydym yn arweinwyr nac yn arbenigwyr ym maes cymhleth argyfwng hinsawdd, sy'n fater brys yn fyd-eang.

Ar lefel ymarferol a gweithredol, mae gan lawer o sefydliadau bolisi a/neu gynllun gweithredu amgylcheddol ar waith yn barod ac maent eisoes yn cymryd camau i leihau eu hallyriadau. Mae rhai sefydliadau eisoes yn mesur allyriadau carbon ac mae ganddynt gynlluniau i gyrraedd carbon sero net erbyn 2030 neu cyn hynny. Yn ogystal â chael ei gynlluniau a thargedau clir ei hun, mae NoFit State Circus yn anelu at fod yn ysgogydd dros newid yn y sector syrcas ehangach, gan gynhyrchu Circus and Outdoor Arts Green Book mewn partneriaeth â'r Eden Project a Phrifysgol Portsmouth. Mae Theatr Byd Bychan yn hyrwyddo ei hun fel enghraifft gyntaf Cymru – a, gellid dadlau, ei henghraifft orau – o ofod celfyddydol sydd bron iawn yn garbon sero net.

O safbwynt creadigol ac ymgysylltu â'r gynulleidfa, mae llawer o sefydliadau eisoes yn ymgysylltu â themâu amgylcheddol yn eu gwaith ac yn deall pŵer y celfyddydau i godi ymwybyddiaeth ac annog ymgyrchu cadarnhaol i fynd i'r afael â'r materion o bwys. Mae llawer o sefydliadau hefyd wedi dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth bod cyfiawnder hinsawdd yn fater o greu llwybr i fyd tecach, yn ogystal ag un sy'n amgylcheddol gynaliadwy; maent yn ystyried bod cysylltiad annatod rhwng yr egwyddor hon a chydraddoldeb ac amrywiaeth a'r Gymraeg. Yn eu cais, mae'r sefydliad Fio yn dangos eu dealltwriaeth o sut mae Cyfiawnder Hinsawdd yn trawsdorri gyda'r egwyddorion eraill, gyda ffocws ar broblemau a grëwyd gan y Gorllewin a chydraddoldeb, yn enwedig gyda ffoaduriaid hinsawdd.

Ymysg y rhai sy'n gweithio'n rhyngwladol, ceir rhywfaint o gydnabyddiaeth bod angen newid ffyrdd o weithio. Mae Opera Cenedlaethol Cymru yn gweithio ar greu strwythur teithio o'r math gorau posibl a bydd yn osgoi bylchau rhwng wythnosau teithio lle bo modd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r drefn llogi a storio cyfarpar a cherbydau.



Opera Cenedlaethol Cymru, *Alice's Adventures in Wonderland*

O edrych ar yr holl ymatebion i'r egwyddor hon, deallwn fod angen mwy o fuddsoddi a chefnogaeth ar draws sawl maes. Mae'r rhain yn cynnwys angen am ragor o waith ymchwil i sefydlu data sylfaenol ar allyriadau carbon ar draws ein sefydliadau a ariennir, yn ogystal â hyfforddiant ar lythrennedd carbon ac ecolegol i'r sector.

Mae'n amlwg bod angen gwaith ymchwil i ganfod y model cywir o gymorth i helpu'r sector yng Nghymru i gyrraedd sero net, ymaddasu i newid hinsawdd, a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Er enghraifft, gallai hwn fod yn debyg i fodel sy'n bodoli eisoes megis Julie's Bicycle neu Creative Carbon Scotland. O safbwynt strategol, bydd yn hollbwysig cydweithredu ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru a chyrff eraill a noddir sy'n ceisio sefydlu mecanweithiau cymorth tebyg yn eu sectorau hwythau, a allai arwain at fuddsoddi i ddarparu cymorth yn ehangach. Er y gellir mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau, gwyddom y bydd yn bwysig i'n buddsoddiad strategol ein hunain fod yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth.

## Ein hymrwymiadau

11. Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol i gomisiynu gwaith ymchwil i greu data sylfaenol ar allyriadau carbon a chynaliadwyedd amgylcheddol sector y celfyddydau. Bydd hyn, yn ei dro, yn darparu argymhellion ar gyfer y model cymorth cywir i helpu'r sector yng Nghymru i gyrraedd sero net, ymaddasu i newid hinsawdd, a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
12. Byddwn yn buddsoddi mewn cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, datblygu sgiliau a meithrin gallu i gynorthwyo sefydliadau ac unigolion i gyflawni eu hymrwymiadau i gyfiawnder hinsawdd.

# 6. Trawsnewid

Cymysg oedd yr ymatebion i'r egwyddor hon. Dangosodd rhai sefydliadau uchelgais clir i wreiddio trawsnewid yn y ffordd maent yn gweithio, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth bod ganddynt y strwythurau a'r strategaethau ar waith i gyflawni newid ac effaith ystyrlon.

Cafwyd enghreifftiau trawiadol gan sefydliadau presennol Portffolio Celfyddydol Cymru, sy'n gweithredu'n wahanol iawn nawr o ran rhaglennu, strategaeth, a strwythur, i sut roeddent yn ystod yr Adolygiad Buddsoddi diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys Tŷ Cerdd, Canolfan Gerdd William Mathias, Theatr Gerdd Cymru, Ffilm Cymru a Volcano Theatre, sydd wedi symud eu ffocws a'u gweithrediadau strategol yn sylweddol er mwyn sicrhau mai lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol a lleisiau cymunedol yw'r nodwedd amlycaf yn eu gwaith.



*Sincere as Objects*, Volcano Theatre Bourdon Brindille

Fodd bynnag, roedd yn siomedig gweld nad oedd rhai o'r sefydliadau eraill, yn enwedig y rhai sydd wedi bod yn cael arian dros nifer o flynyddoedd, ddim ymhellach ymlaen ar eu taith trawsnewid na'r hyn y cyfeiriwyd ato yn eu ceisiadau.

Fel gyda'r ymatebion i rai o'r egwyddorion eraill, mae'r gallu a'r capasiti i lawer o sefydliadau gyflawni o dan egwyddor trawsnewid yn dibynnu ar benodi swyddi newydd, er enghraifft, swyddi codi arian. Gwelsom hefyd y bydd angen cymorth a mentora ar lawer o'r sefydliadau newydd sydd â'r potensial i gyflwyno rhaglenni cyffrous i helpu gyda'u trawsnewid a'u cydnerthedd, yn enwedig o ran gofynion busnes a gweithredol.

Mae'r rhai y byddwn yn eu cefnogi trwy'r model ariannu aml-flwyddyn wedi dangos sut maent wedi trawsnewid a newid, a sut maent wedi wynebu heriau niferus y blynyddoedd diwethaf gyda gonestrwydd, arloesedd a chydnerthedd. Mae gwreiddio proses newid a thrawsnewid parhaus, gyda gwerthuso a dysgu yn rhannau craidd o strwythur sefydliadol, yn bwysig i'r sefydliadau wrth iddynt ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd a chryfhau eu hymatebion i anghenion cynulleidfaoedd ac unigolion creadigol fel ei gilydd. Er enghraifft, bydd Plant y Cymoedd yn cymryd rhan mewn proses strategol, o'r enw 'Trawsnewid', sef yr adolygiad cyntaf o'r sefydliad cyfan o'r gwraidd i'r brig ers ei sefydlu bron hanner canrif yn ôl.

## Ein hymrwymiad

13. Byddwn yn datblygu adnoddau a hyfforddiant cymorth busnes i sefydliadau er mwyn cefnogi trawsnewidiad a chydnerthedd.

# Ffactorau Cydbwyso

| Gwasanaethu cymunedau ledled Cymru | Ystod eang o gelfyddydau a chyfleoedd creadigol | Lleisiau sy'n cael eu tanariannu sydd ddim yn cael eu clywed | Gwerth cyhoeddus | Maint a ffurf sefydliadau sy'n ymgeisio |
|---|---|---|---|---|

## Gwasanaethu cymunedau ar draws Cymru

Mae angen inni fod yn onest am anghydbwysedd dosbarthiad daearyddol y sefydliadau y byddwn yn eu hariannu. Mae'r gwariant y pen ar y boblogaeth yng Nghaerdydd yn dal i fod yn sylweddol uwch nag mewn awdurdodau lleol eraill, er enghraifft £44.87 (gan gynnwys cwmnïau cenedlaethol), £13.09 (heb gynnwys cwmnïau cenedlaethol) o'i gymharu â £0.94 yn Nhorfaen.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad ydym yn cefnogi gweithgareddau celfyddydol eraill yn yr ardaloedd hyn, fel y dangosir gan ein gwaith gyda chynllun Noson Allan, Celfyddydau ac Iechyd, a Dysgu Creadigol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant yng Nghaerdydd yn ganlyniad i'r nifer o sefydliadau yno sy'n cael y symiau mwyaf o arian, gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Er mai cwmnïau cenedlaethol sy'n gwasanaethu Cymru gyfan yw'r rhain, mae'r ffaith eu bod yng Nghaerdydd, a'r rhan fwyaf o'r gyflogaeth yn gysylltiedig â'r ardal, yn amlwg yn effeithio ar y ffordd rydym yn gwasanaethu cymunedau Cymru. Mae hyn yn wir o ran effaith economaidd a chyfle.

Mae rhai rhannau gwledig o Gymru wedi gweld canlyniad cadarnhaol trwy'r broses fuddsoddi hon, gyda Cheredigion a Gwynedd yn gwneud yn dda o ran gwariant y pen o'r boblogaeth, sef £19.09 a £14.03 yn y drefn honno. Rydym hefyd wedi gallu cefnogi ardaloedd sydd heb gael budd yn y gorffennol gyda sefydliadau a ariennir ar sail aml-flwyddyn, megis y ddau sefydliad newydd yn Wrecsam – Tŷ Pawb a FOCUS Wales.

Bydd ein perthynas ag awdurdodau lleol yn y dyfodol mewn rhai mannau penodol yn hollbwysig os ydym am wella'r ffordd mae sector y celfyddydau yn gwasanaethu cymunedau Cymru. Bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau anodd i beidio â buddsoddi mewn rhai sefydliadau mewn ardaloedd lle byddem eisiau cynyddu ein gweithgareddau; mae hyn oherwydd nad oedd eu hymateb i'r chwe egwyddor mor gryf ag ymateb sefydliadau eraill.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi sefydliadau drwy Gymru gyfan, byddwn yn blaenoriaethu ein hymyriadau strategol ni dros y blynyddoedd nesaf drwy ddatblygu partneriaethau mewn ardaloedd penodol, gan gynnwys Blaenau Gwent, Torfaen, Conwy, a Sir Ddinbych.

Bydd nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – yn enwedig 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' – yn ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd yn fwy strategol, ac yn hollbwysig, mewn ffordd fwy hirdymor. Gallwn hefyd weithio gydag anghenion awdurdodau lleol i ddefnyddio diwylliant a'r celfyddydau i fynd i'r afael â rhai o'r problemau lleol difrifol, gan gynnwys unigedd, diffyg sgiliau, a chydlyniant cymunedol.

## Ein hymrwymiad

14. Byddwn yn datblygu ein perthnasoedd ag awdurdodau lleol i weld sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r celfyddydau gorau i bawb, yn enwedig mewn meysydd:
    - sydd heb gael gwasanaeth digonol gan ein harian
    - lle rydym yn cyd-fuddsoddi mewn sefydliadau neu raglennu celfyddydol (er enghraifft, lleoliadau).

## Ystod eang o gelfyddydau a chyfleodd creadigol

Mae celfyddydau ac iechyd yn un o'r meysydd creadigol lle rydym yn gweld datblygiadau cyffrous. Nid yn unig mae hwn yn faes sy'n cael ei flaenoriaethu fwyfwy ar draws nifer o sefydliadau, ond rydym hefyd yn gweld sefydliadau arbenigol newydd yn y maes hwn yn cael eu hariannu trwy arian aml-flwyddyn am y tro cyntaf. Mae hyn yn cynnwys WAHWN yn Sir Benfro a Re-Live yng Nghaerdydd. Mae'r rhain yn ganlyniadau uniongyrchol i'n rhaglenni Celfyddydau, Iechyd a Lles arbenigol a ariennir gan y Loteri a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Cydffederasiwn GIG Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae yna ddatblygiadau cadarnhaol mewn sefydliadau sy'n gweithio mewn celfyddydau newydd a chymysg, gan gynnwys syrcas, ffilm a digidol. Celfyddydau gweledol a chrefftau yw'r maes penodol sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn sefydliadau newydd a ariennir, yn codi o 10 i 13 o 2024 ymlaen, gydag Oriel Plas Glyn y Weddw yn Llanbedrog ac Oriel Elysium yn Abertawe bellach yn cael cynnig arian aml-flwyddyn.

Mae'r canlyniad ar gyfer dawns yn llai cadarnhaol yn y broses hon, a byddwn yn adolygu ein cefnogaeth i'r sector hwn dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig yn y ddarpariaeth gymunedol a'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y gwariant cyffredinol yn y sector theatr wedi gostwng, mae nifer y sefydliadau a ariennir gan yr Adolygiad Buddsoddi yn y sector hwn wedi codi o naw i 11, gyda chwmni theatr Taking Flight, Fio, a Common Wealth yn cynnig ymagwedd newydd gyffrous ac amrywiol i'r sector. Theatr, felly, yw 13.4% o'r gyllideb (a mwy pan ystyriwch fod nifer o'r lleoliadau hefyd yn dai cynhyrchu). Gwyddom na fydd cwmni theatr genedlaethol ddynodedig yn gweithio drwy'r Saesneg yn dilyn yr adolygiad hwn, a byddwn yn comisiynu adroddiad ar anghenion y sector fel un o'n blaenoriaethau o'r flwyddyn nesaf ymlaen.

At ei gilydd, lleoliadau yw'r nifer fwyaf o sefydliadau newydd, yn codi o 18 yn 2015 i 22 yn yr Adolygiad Buddsoddi hwn. Ynghyd â sector y celfyddydau cymunedol, lle mae 15 yn cael eu hariannu erbyn hyn o gymharu â 14 yn 2015, mae lleoliadau'n chwarae rôl bwysig wrth wneud yn siŵr y gall cymunedau ledled Cymru fwynhau'r celfyddydau. Bydd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn cael cynnig nawdd aml-flwyddyn am y tro cyntaf. Wedi ei lleoli ym Mhen-y-bont, mae Awen yn cefnogi ystod o theatrau ar draws awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl, Neuadd y Dref Maesteg, Neuadd y Gweithwyr Blaengarw, Y Met yn Abertyleri ym Mlaenau Gwent, a Chanolfan Gelf Muni ym Mhontypridd yn Rhondda Cynon Taf. Ar adeg pan fo'r stryd fawr yn dod yn fwyfwy gwag, mae rhai o'r lleoliadau hyn yn cynnig canolfan leol i bobl o bob oed, gyda chaffis a chlybiau, a mentrau megis siopau a gerddi cymunedol.

## Lleisiau sydd wedi'u tanariannu ac sydd ddim yn cael eu clywed

Un canlyniad i'r broses hon yw gallu cynnig arian aml-flwyddyn i sefydliadau a arweinir gan bobl o gefndiroedd mwy amrywiol, gan gynnwys Fio, Jukebox Collective ac Urban Circle. Mae effaith ein rhaglen ymyriadau strategol yn y maes hwn, gan gynnwys trwy'r cynllun cymorth Camau Creadigol, i'w gweld yn glir. Byddwn yn parhau i gefnogi Celfyddydau Anabledd Cymru gyda mwy o arian, ac mae carfan gref o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar anableddau, a arweinir gan bobl ag anableddau a gan bobl niwroamrywiol yn ymddangos. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn i wella ein gwaith a'n cyfeiriad strategol ein hunain yn y maes hwn.

Fodd bynnag, nifer fach o sefydliadau a arweinir gan bobl Ddu sy'n dod trwy'r systemau ariannu o hyd, ac fel blaenoriaeth, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i ddarparu cymorth targededig i'r sefydliadau a fyddai'n cael budd o hynny. Roedd rhai o'r sefydliadau a wnaeth gais am arian o'r Adolygiad Buddsoddi ond na fu'n llwyddiannus yn dangos potensial mawr, a byddwn yn cynnig amrywiaeth o gymorth ychwanegol dros y flwyddyn nesaf i helpu i ddatblygu'r cwmnïau hyn.

O safbwynt y sefydliadau a ariennir ar hyn o bryd, mae llawer wedi dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â'r diffyg amrywiaeth yn eu harweinyddiaeth ac aelodau o'r bwrdd. Mae rhai hefyd yn cynnig mentrau datblygu artistiaid a datblygu cynulleidfa fel rhan o'u rhaglennu craidd i drawsnewid ac amrywio eu sectorau, er enghraifft Tŷ Cerdd ac Artes Mundi. Mae yna arwyddion cadarnhaol o gynnydd ond mae angen gwneud mwy a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau i ddatblygu sector gwirioneddol amrywiol.

## Gwerth cyhoeddus

Wrth ddyfarnu arian cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau'r buddion mwyaf i bobl Cymru. Er bod rhai ceisiadau wedi nodi cynlluniau uchelgeisiol â thystiolaeth dda ar gyfer cysylltu â chynulleidfaoedd – megis model Theatr na nÓg oedd wedi'i seilio ar deithiau llwyddiannus 'Shirley Valentine' ac 'Operation Julie' – roeddem yn siomedig nad oedd rhai sefydliadau yn dangos galw, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi bod yn derbyn nawdd ers cryn amser ac yn meddu ar broffil uwch.

Mae'r argyfwng costau byw a'r erydu o ran arian cyhoeddus dros y blynyddoedd wedi gadael eu hôl ar y celfyddydau. Mae sawl sefydliad wedi gweld lleihad mewn arian gan yr awdurdod lleol, gyda rhywfaint o'r arian wedi dod i ben yn llwyr. Mae llawer o'r lleoliadau a gafodd eu taro waethaf gan y cyfyngiadau Covid-19 ac sy'n dal i gael trafferth i ddod â'r incwm o gynulleidfaoedd yn ôl i'r lefelau blaenorol, bellach yn chwilio am gydbwysedd mwy sefydlog rhwng incwm a enillir a chymhorthdal cyhoeddus.

Gyda hyn mewn golwg, gwelsom lawer o sefydliadau'n dweud yn eu cyflwyniadau eu bod yn ceisio datblygu eu modelau busnes, ac wrth ymateb i hyn, mae nifer fawr o sefydliadau'n chwilio am fwy o arian i gyflogi pobl mewn swyddi codi arian.

Efallai y byddai ehangu'r mathau hyn o swyddi yn cynnig gwerth da, ac mae'n bwysig iawn adolygu modelau busnes hefyd, yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar incwm a enillir. Fodd bynnag, ar y cyfan nid ydym wedi gallu cynnig mwy o arian i gefnogi hyn oherwydd y pwysau ariannol rydym yn ei wynebu a'n hawydd i ariannu carfan fwy, mwy amrywiol o sefydliadau.

Yn y rhan hon o'r broses, roeddem hefyd yn gwerthuso sefydliadau yn ôl y ffordd maent yn cysylltu gyda'u cynulleidfaoedd. Roeddem yn chwilio am dystiolaeth o ymagwedd ragweithiol at ymgysylltu â chynulleidfaoedd fel rhanddeiliaid allweddol wrth greu a chyflwyno gweithgarwch celfyddydol, gyda democratiaeth ddiwylliannol wedi'i gwreiddio yn y gwaith cynllunio strategol a chynllunio rhaglenni. Bydd Common Wealth yn cyhoeddi'r llyfr 'How we made it', wedi'u cefnogi gan Gynllun Secondio Sbarduno Effaith UKRI, a fydd yn rhannu ei ymagwedd at greu perfformiad gwreiddiol yn seiliedig ar gyd-greu hirdymor. Bydd yn cynnig enghreifftiau ysbrydoledig o'r golwg all fod ar ansawdd bywyd, cyfleoedd, canlyniadau gwell a chydnerthedd pan gânt eu hawduro gan gymunedau ar eu telerau eu hunain. Dangosodd Celfyddydau Span Arts o Sir Benfro sut y byddai'n cyd-raglennu a chydgomisiynu yn uniongyrchol â'i gymuned a sut roedd ei gymuned yn llywio pob agwedd ar ei waith a'i benderfyniadau. Dangosir ffordd Plant y Cymoedd o weithio – 'dim byd amdanom ni hebom ni' trwy brosiect Sparc, lle gosododd pobl ifanc gyfeiriad y gwaith trwy ddiwrnodau ymgynghori a chynllunio creadigol, a thrwy eu grŵp llywio ac mewn cyrsiau preswyl.

Mae yna sawl sefydliad hefyd sy'n defnyddio arian Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn sicrhau rhagor o fuddsoddiad neu fel rhan o fodel mwy cyfunol. Yng nghais Canolfan Mileniwm Cymru, dywedodd y sefydliad sut mae wedi defnyddio arian celfyddydau, a fwriadwyd yn wreiddiol i gynorthwyo â chostau rhedeg yr adeilad, i greu model masnachol sydd wedi helpu i ariannu gwaith i gymunedau, pobl greadigol a phobl ifanc ledled Cymru.

## Maint a ffurf y sefydliadau sy’n ymgeisio

Yn ogystal ag ariannu 23 o sefydliadau newydd, mae’r sefydliadau y cynigiwyd arian iddynt yn amrywio’n sylweddol o ran maint, cyrhaeddiad a chymorth ariannol. Mae’r cynnig lleiaf yn llai na £50,000 ac mae’r mwyaf yn fwy na £4 miliwn. Rydym yn cefnogi cyrff strategol, megis Tŷ Cerdd, Ffilm Cymru Wales a Llenyddiaeth Cymru, ochr yn ochr â sefydliadau sy’n cael eu hariannu ar gyfer elfennau penodol o’u gweithgarwch, megis PYST a’i waith cymunedol a Chanolfan Gelfyddydau Wyeside a’i raglennu celfyddydol.

Mae yna gwmnïau sy’n cyflawni rhaglenni arwyddocaol ac uchelgeisiol y tu allan i Gymru neu sy’n gweithio’n rhyngwladol. Mae’r rhain yn cynnwys NoFit State Circus, Opera Cenedlaethol Cymru, ac ar raddfa wahanol ond pwysig, Neuadd Ogwen ym Methesda. Bydd Neuadd Ogwen yn datblygu gŵyl ieithoedd brodorol ryngwladol, ‘Gŵyl Mawr y Rhai Bychain’ i gynnig cyfleoedd i artistiaid o Gymru deithio o gwmpas Cymru ac yn rhyngwladol, ac i ddod ag artistiaid o gefndiroedd a phrofiadau diwylliannol gwahanol i berfformio yng Nghymru. Y nod yw gwella cysylltiadau, a chreu mwy o gyfleoedd i artistiaid gael eu gweld gan y diwydiant cerddoriaeth yn rhyngwladol ac i gael cynrychiolaeth broffesiynol.

Mae’r 23 sefydliad newydd yn ymuno ar adegau gwahanol yn eu datblygiad a’u swyddogaeth, gan gynnwys Creu Cymru a WAHWN fel cyrff datblygu’r sector, a hefyd FOCUS Wales, cwmni oedd yn gallu ymgeisio’r tro hwn gan ein bod yn agored i wyliau am y tro cyntaf. Mae gennym hefyd sefydliadau sydd eisoes ar lwybr twf a datblygiad, a bydd ein buddsoddiad ynddynt dros y blynyddoedd nesaf yn arwyddocaol o ran caniatáu iddynt barhau â’r teithiau pwysig hyn; mae’r rhain yn cynnwys Hijinx, Ballet Cymru, Jukebox Collective a Chwmni’r Frân Wen.

# Beth sy’n digwydd nesaf?

## I ymgeiswyr

Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael adroddiad ar sut y cafodd eu cais ei asesu, y penderfyniad a wnaethpwyd a’r camau nesaf.

### Ymgeiswyr llwyddiannus

Mae unrhyw gynnig a wneir yn amodol a gallai newid, yn ddibynnol ar ein nawdd gan Lywodraeth Cymru ac ar ganlyniad y broses apeliadau.

Pan fydd y sefydliad wedi cael amser i ystyried y nawdd a gynigiwyd, byddwn yn trafod gyda nhw, yr hyn y gellir ei gyflawni am y swm y byddant yn ei gael. Gwyddom nad yw rhai sefydliadau yn cael y swm llawn roeddent wedi gofyn amdano, ac efallai y bydd angen iddynt ailedrych ar eu cynlluniau. Yn yr un modd, gallai fod rhai elfennau yn y cais fod wedi ein argyhoeddi yn fwy nag eraill, neu weithredoedd a thargedau penodol y teimlwn y byddai angen eu cynnwys mewn unrhyw gytundeb ariannu.

Bydd rhan o’r trafodaethau hynny hefyd yn ymdrin â’r gofynion monitro. Mae angen inni sicrhau cydbwysedd rhwng cadw’r gwaith gweinyddol mor syml ac effeithlon ag y bo modd i sefydliadau, ond ar yr un pryd mae angen inni sicrhau ein bod yn monitro arian cyhoeddus yn effeithiol, yn atebol ac yn gallu dangos effaith ein harian.

Bydd cytundebau ariannu yn eu lle erbyn diwedd mis Mawrth 2024 er mwyn i’r nawdd ddechrau ym mis Ebrill 2024.

## Ymgeiswyr aflwyddiannus

Gall sefydliadau na fydd yn derbyn arian aml-flwyddyn barhau i geisio am nawdd o'n cronfeydd eraill a bydd ein cydweithwyr wrth law i gael sgyrsiau am y ffyrdd eraill y gallem gefnogi eu gwaith. Gallai'r rhain gynnwys:

- Cyfleoedd i ymgeisio eto yn y dyfodol
- Dulliau eraill i'w cefnogi, e.e. trwy gynlluniau agored eraill y Loteri Genedlaethol megis Creu
- Gwneud cais i'r gronfa Camau Creadigol

Bydd y sefydliadau hynny sy'n aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru, ond na fydd yn cael arian aml-flwyddyn o 2024/25 ymlaen, yn gallu ymgeisio am Arian Pontio i gynorthwyo â'u cynlluniau.

## Apeliadau

Gall sefydliadau apelio os oes ganddynt dystiolaeth ein bod wedi cynnal y broses mewn ffordd annheg. Hynny yw, os na wnaethom ddilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig, os gwnaethom gamddeall rhan arwyddocaol o'u cais neu os na wnaethom gymryd sylw o wybodaeth berthnasol y dywedwyd y byddem yn rhoi sylw iddi, yn ein canllawiau cyhoeddedig. Mae'r galw am gyllid yn fwy na'r arian sydd ar gael inni felly rydym wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd a heriol gan ddefnyddio ein barn broffesiynol. Efallai ein bod wedi gwneud penderfyniadau sy'n amhoblogaidd neu nad yw sefydliad yn eu croesawu. O dan delerau ein gweithdrefn apeliadau nid yw hyn yn sail ddigonol ar gyfer apêl.

**Mae gan sefydliadau 21 o ddyddiau calendr ar ôl cael hysbysiad o'u penderfyniad i wneud apêl.**

Cynhelir adolygiad cychwynnol gan adolygydd (yn annibynnol o Gyngor Celfyddydau Cymru) a rhoddir gwybod i'r sefydliad 16 diwrnod ar ôl y dyddiad cau os bydd eu hapêl yn cael ei chlywed. Os bydd sail i glywed apêl, bydd panel yn cwrdd cyn pen 28 diwrnod a rhoddir gwybod i'r ymgeisydd a'r Cyngor am ei argymhelliad 7 diwrnod wedi hynny. Bydd y Cyngor yn ystyried argymhellion y panel wedi hynny, ym mis Rhagfyr.

## I Gyngor Celfyddydau Cymru

Yn y dogfennau canllaw ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, dywedwyd fod yn rhaid i ni fel sefydliad hefyd groesawu newid, ac fel y sector, rydym ninnau hefyd ar ein taith i drawsnewid. Rydym wedi ymrwymo i wrando, hunan-fyfyrio, dysgu a datblygu, gan werthuso'r ffordd yr ydym yn gweithio, ac adolygu ein hymagweddau. Rydym hefyd eisiau ailddatgan bod ein perthynas â'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu yn un cydradd, lle rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu newid cadarnhaol i gymdeithas trwy'r celfyddydau.

Rydym wedi ymrwymo i ddysgu ochr yn ochr â gweddill sector y celfyddydau, a byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau, cyfleoedd datblygu a gofodau i fyfyrio a chefnogi ein gilydd yn ein gwaith ar draws y chwe egwyddor. Rydym eisiau achub ar y cyfle i adeiladu ar bopeth a ddysgwyd gennym dros y blynyddoedd diwethaf wrth inni barhau i symud at sector tecach, mwy cyfrifol, gwrth-hiliol, gwrth-ableddiaethol.

Lle bynnag y bo modd rydym eisiau gweithio ar y cyd â'r sefydliadau hynny sy'n rhannu ein gwerthoedd a'n hamcanion, er mwyn llwyddo i wneud mwy nag y gallem ei gyflawni ar ein pen ein hunain. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein partneriaethau pwysig â Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymru Greadigol, a gydag undebau a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus.

Mae ein Cynllun Strategol, a gyhoeddir yn 2024, wedi'i seilio ar y chwe egwyddor. Caiff ei ddatblygu ymhellach dros y misoedd i ddod mewn ymateb i ganlyniad yr Adolygiad Buddsoddi hwn, i wneud yn siŵr bod ein hymyriadau strategol yn targedu'r meysydd lle mae'r angen mwyaf.

# Crynodeb o'r Argymhellion

Cynigir arian i'r sefydliadau canlynol, yn ddibynnol ar gadarnhad o'n harian ni gan Lywodraeth Cymru ac ar ganlyniad y broses apêl:

| Sefydliad | £ |
|---|---:|
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | 544,628 |
| Arad Goch | 352,048 |
| Artes Mundi | 150,164 |
| Artis Community Cymuned | 202,935 |
| Arts Care Gofal Celf | 134,893 |
| Arts Connection | 66,174 |
| Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen* | 250,000 |
| Ballet Cymru | 750,000 |
| Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC | 817,111 |
| Sefydliad y Glowyr Coed Duon | 131,300 |
| Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful (Soar)* | 100,000 |
| Canolfan Gerdd William Mathias | 81,445 |
| Chapter Arts | 400,000 |
| Citrus Arts* | 100,000 |
| Common Wealth* | 200,000 |
| Cerdd Gymunedol Cymru | 100,000 |
| Creu Cymru* | 75,000 |
| Cwmni'r Frân Wen | 350,000 |
| Dawns i Bawb | 100,000 |
| Celfyddydau Anabledd Cymru | 200,000 |
| Oriel Elysium* | 120,000 |
| Ffilm Cymru | 1,436,630 |
| Ffotogallery | 202,439 |
| Fio* | 220,000 |
| FOCUS Wales* | 100,000 |
| g39 | 140,000 |
| Galeri Caernarfon | 320,942 |
| Oriel Gelf Glynn Vivian | 127,257 |
| Hijinx | 400,000 |

| Sefydliad | £ |
|---|---|
| It's My Shout* | 80,000 |
| Jukebox Collective | 280,000 |
| Llenyddiaeth Cymru** | 753,306 |
| Live Music Now Wales | 45,812 |
| Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange | 86,535 |
| Oriel Mission | 96,715 |
| Mostyn | 395,005 |
| Theatr Celf Cymru | 222,191 |
| Mwldan | 271,865 |
| Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru | 846,596 |
| Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru | 450,000 |
| NoFit State Circus | 197,503 |
| Operasonic* | 81,000 |
| Oriel Davies | 227,128 |
| Oriel Myrddin | 47,849 |
| Oriel Plas Glyn y Weddw* | 75,000 |
| Peak | 78,780 |
| People Speak Up* | 75,000 |
| Canolfan y Celfyddydau Pontardawe | 64,137 |
| Pontio | 284,285 |
| PYST* | 60,000 |
| Theatrau Rhondda Cynon Taf | 153,065 |
| Re-Live* | 80,000 |
| Theatr Glan yr Afon | 75,000 |
| Canolfan Grefft Rhuthun | 395,005 |
| Theatr Sherman | 1,142,749 |
| Sinfonia Cymru | 221,065 |
| Theatr Byd Bychan* | 60,000 |
| Celfyddydau Span Arts* | 100,000 |

| Sefydliad | £ |
|---|---:|
| Tabernacl (Neuadd Ogwen)* | 125,000 |
| Theatr Taking Flight* | 295,000 |
| Tanio | 177,753 |
| Theatr Bara Caws | 310,503 |
| Theatr Brycheiniog | 197,503 |
| Theatr Clwyd | 1,829,792 |
| Theatr Felinfach | 61,084 |
| Theatr Genedlaethol | 1,044,883 |
| Theatr Iolo | 260,569 |
| Theatr na nÓg | 320,795 |
| Theatrau Sir Gâr* | 50,000 |
| Theatr Torch | 650,000 |
| Tŷ Cerdd** | 300,000 |
| Tŷ Pawb* | 200,000 |
| Ucheldre | 76,355 |
| Urban Circle* | 275,000 |
| Plant y Cymoedd | 200,000 |
| Volcano Theatre | 212,317 |
| Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru* | 100,000 |
| Canolfan Mileniwm Cymru | 3,590,552 |
| Opera Cenedlaethol Cymru | 4,100,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Wyeside* | 30,000 |
| Y Neuadd Les Ystradgynlais | 95,000 |

* Yn dynodi’r 23 sefydliad sy’n ychwanegiadau newydd i arian aml-flwyddyn a/neu nad ydynt yn aelodau cyfredol (2023/24) o Bortffolio Celfyddydol Cymru.

** Byddant yn cael arian dirprwyedig o’r Loteri Genedlaethol yn ychwanegol at y cynnig.

# Crynodeb o'r ymyriadau strategol

## Ein hymrwymiadau

1. Byddwn yn cynnal adolygiad o gefnogaeth strategol i sector y celfyddydau gweledol yn 2025/26.
2. Byddwn yn cynnal adolygiad o theatr Saesneg yng Nghymru.
3. Byddwn yn parhau â'n partneriaethau i gefnogi genres a chrewyr cerddoriaeth sydd wedi'u tanariannu, megis Power Up! ac Accelerator gyda Sefydliad PRS.
4. Byddwn yn adolygu ein cefnogaeth i gerddoriaeth draddodiadol ac yn ystyried anghenion buddsoddi i'r dyfodol.
5. Byddwn yn adolygu'r sector dawns yng Nghymru, a dawns gymunedol yn benodol. Byddwn yn edrych ar gefnogi seilwaith a'r ffordd mae'n cysylltu â gweithgareddau celfyddydau cymunedol eraill.
6. Byddwn yn adolygu sector y celfyddydau awyr agored yn 2025/26 ac yn ystyried cefnogaeth strategol.
7. Byddwn yn datblygu rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i ddarparu cymorth gan gymheiriaid a mentora ynghylch Ehangu Ymgysylltiad er mwyn edrych a rhannu arferion gorau.
8. Byddwn yn cefnogi RAMPS Cymru – cydweithrediad rhwng Theatr Clwyd, Theatr Sherman, Celfyddydau Pontio, Theatr Torch, a Choleg Cerdd a Drama Cymru – sydd â'r nod o greu newid ystyrlon a chynaliadwy er mwyn gwella cynrychiolaeth pobl anabl ledled y sector theatr prif ffrwd yng Nghymru. Caiff hyn ei ariannu ar wahân i gynigion ariannu unigol.
9. Gan adeiladu ar waith ein Hysgogydd y Gymraeg, byddwn yn creu cyfleoedd mentora a hyfforddi i weithio gyda'r sector i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau o ran y Gymraeg. Byddwn yn cydgysylltu'r gwaith hwn i helpu i ganfod cyfleoedd i weithio ar y cyd.
10. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid megis Cymru Greadigol i ganfod cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau yn y sector lle mae'r angen mwyaf.

11. Byddwn yn cydweithredu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol i gomisiynu gwaith ymchwil i greu data sylfaenol ar allyriadau carbon a chynaliadwyedd amgylcheddol sector y celfyddydau. Bydd hyn, yn ei dro, yn darparu argymhellion ar gyfer y model cymorth cywir i helpu'r sector yng Nghymru i gyrraedd sero net, ymaddasu i newid hinsawdd, a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.
12. Byddwn yn buddsoddi mewn cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, datblygu sgiliau a meithrin gallu i gynorthwyo sefydliadau ac unigolion i gyflawni eu hymrwymiadau i gyfiawnder newid hinsawdd.
13. Byddwn yn datblygu adnoddau a hyfforddiant cymorth busnes i sefydliadau, er mwyn cefnogi trawsnewidiad a chydnerthedd.
14. Byddwn yn datblygu ein perthnasoedd ag awdurdodau lleol i weld sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau'r celfyddydau gorau i bawb, yn enwedig mewn meysydd:
    - sydd heb gael gwasanaeth digonol gan ein nawdd
    - lle rydym yn cyd-fuddsoddi mewn sefydliadau neu raglennu celfyddydol (er enghraifft, lleoliadau).

# Crynodeb o'r buddsoddiad yn ôl celfyddyd/maes creadigol

| Celfyddyd/Maes Creadigol | Arian Portffolio Celfyddydol Cymru 2023/24 | Arian aml-flwyddyn yr Adolygiad Buddsoddi 2024/25 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Syrcas a Chelfyddydau Awyr Agored | £197,503 | £297,503 | £100,000 |
| Celfyddydau Cymunedol | £2,003,052 | £2,386,619 | £383,567 |
| Dawns | £1,300,229 | £1,596,596 | £296,367 |
| Celfyddydau Digidol | £0 | £60,000 | £60,000 |
| Ffilm | £1,436,630 | £1,436,630 | £0 |
| Llenyddiaeth | £753,306 | £828,306 | £75,000 |
| Celfyddydau Cymysg | £167,879 | £260,000 | £92,121 |
| Cerddoriaeth | £1,454,446 | £1,746,433 | £291,987 |
| Opera | £4,929,499 | £4,322,191 | -£607,308 |
| Theatr | £4,499,365 | £3,966,115 | -£533,250 |
| Lleoliadau*** | £10,229,870 | £10,457,173 | £227,303 |
| Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol | £1,799,361 | £2,263,097 | £463,736 |

*** Noder bod hyn yn cynnwys nifer o leoliadau sydd hefyd yn gwmnïau cynhyrchu megis Theatr Sherman Cymru, Theatr Torch a Theatr Clwyd.

# Crynodeb o'r buddsoddiad yn ôl awdurdod lleol

| Awdurdod lleol | Arian cyfredol Portffolio Celfyddydol Cymru 2023/24 | Arian aml-flwyddyn yr Adolygiad Buddsoddi 2024/25 | Gwahaniaeth |
|---|---:|---:|---:|
| Blaenau Gwent | £152,709 | £0 | -£152,709 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £177,753 | £507,753 | £330,000 |
| Caerffili | £131,300 | £131,300 | £0 |
| Caerdydd | £17,454,666 | £16,258,381 | -£1,196,285 |
| Sir Gâr | £1,227,625 | £1,352,625 | £125,000 |
| Ceredigion | £1,229,625 | £1,364,625 | £135,000 |
| Conwy | £395,005 | £395,005 | £0 |
| Sir Ddinbych | £395,005 | £395,005 | £0 |
| Sir y Fflint | £1,906,439 | £1,829,792 | -£76,647 |
| Gwynedd | £2,046,959 | £2,400,481 | £353,522 |
| Ynys Môn | £76,355 | £76,355 | £0 |
| Merthyr Tudful | £106,896 | £200,000 | £93,104 |
| Sir Fynwy | £0 | £0 | £0 |
| Castell-nedd Port Talbot | £384,932 | £384,932 | £0 |
| Casnewydd | £383,387 | £1,181,000 | £797,613 |
| Sir Penfro | £454,258 | £850,000 | £395,742 |
| Powys | £940,575 | £694,585 | -£245,990 |
| Rhondda Cynon Taf | £480,204 | £656,000 | £175,796 |
| Abertawe | £659,467 | £556,289 | -£103,178 |
| Torfaen | £86,535 | £86,535 | £0 |
| Bro Morgannwg | £81,445 | £0 | -£81,445 |
| Wrecsam | £0 | £300,000 | £300,000 |

# Arian y pen o'r boblogaeth

| Awdurdod lleol | Arian cyfredol Portffolio Celfyddydol Cymru 2023/24 | Arian aml-flwyddyn yr Adolygiad Buddsoddi 2024/25 | Arian cyfredol Portffolio Celfyddydol Cymru 2023/24 (ac eithrio cyrff cenedlaethol) | Arian aml-flwyddyn yr Adolygiad Buddsoddi 2024/25 (ac eithrio cyrff cenedlaethol) |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Blaenau Gwent | £2.28 | £0.00 | £2.28 | £0.00 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £1.22 | £3.49 | £1.22 | £3.49 |
| Caerffili | £0.75 | £0.75 | £0.75 | £0.75 |
| Caerdydd | £48.18 | £44.87 | £12.51 | £13.09 |
| Sir Gâr | £6.53 | £7.20 | £0.97 | £1.64 |
| Ceredigion | £17.20 | £19.09 | £17.20 | £19.09 |
| Conwy | £3.44 | £3.44 | £3.44 | £3.44 |
| Sir Ddinbych | £4.12 | £4.12 | £4.12 | £4.12 |
| Sir y Fflint | £12.30 | £11.81 | £12.30 | £11.81 |
| Gwynedd | £17.44 | £20.45 | £11.02 | £14.03 |
| Ynys Môn | £1.11 | £1.11 | £1.11 | £1.11 |
| Merthyr Tudful | £1.82 | £3.40 | £1.82 | £3.40 |
| Castell-nedd Port Talbot | £2.71 | £2.71 | £2.71 | £2.71 |
| Casnewydd | £2.40 | £7.40 | £2.40 | £7.40 |
| Sir Penfro | £3.68 | £6.89 | £3.68 | £6.89 |
| Powys | £7.06 | £5.22 | £7.06 | £5.22 |
| Rhondda Cynon Taf | £2.02 | £2.76 | £2.02 | £2.76 |
| Abertawe | £2.77 | £2.33 | £2.77 | £2.33 |
| Torfaen | £0.94 | £0.94 | £0.94 | £0.94 |
| Bro Morgannwg | £0.62 | £0.00 | £0.62 | £0.00 |
| Wrecsam | £0.00 | £2.22 | £0.00 | £2.22 |

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Adolygiad Buddsoddi 2023
Adroddiad a Phenderfyniadau

www.celf.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®